**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**6 CHWEFROR 2019**

Minutes of the meeting of the Planning Committee of Flintshire County Council held at County Hall, Mold on Wednesday, 6 February 2019

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Councillors: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips and Owen Thomas

**YN Y CYFARFOD:** Bu'r cynghorwyr canlynol yn arsylwi:
Y Cynghorwyr Dennis Hutchinson ac Aaron Shotton.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff; Uwch Gyfreithiwr; Swyddog Coed, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 50. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 51. SYLWADAU HWYR

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau hwyr.

## 52. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2019.

Tynnodd yr Uwch Gyfreithiwr sylw'r Pwyllgor at ddiwygiad ar dudalen 5 o'r cofnodion, lle dylid dileu'r geiriau 'cysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu' a rhoi 'cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu' yn eu lle.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 53. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni chafwyd unrhyw argymhellion gan swyddogion.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers i godi pwynt ynglŷn â'r broses. Diolchodd i'r Uwch Gyfreithiwr am y cyngor a gafodd cyn dechrau'r cyfarfod, ond mynegodd siom nad oedd rhaglen y cyfarfod yn cynnwys cais amlinellol i ddymchwel 81 Drury Lane yr oedd swyddog wedi argymell ei wrthod. Esboniodd ei fod wedi derbyn copi o'r rhaglen ddrafft ar 28 Ionawr a'i fod wedi rhannu honno

â thrigolion lleol, ond ei fod wedi clywed yn y cyfamser fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno gohebiaeth hwyr yn nodi barn gyfreithiol ar y cais, ac y penderfynwyd gohirio'r eitem ar sail hynny. Mynegodd bryder am y byddai hynny'n peri mwy o oedi wrth ystyried y cais, un yr oedd wedi ymateb iddo gyntaf fis Medi 2018, ac roedd o'r farn y dylid fod wedi cadw'r eitem ar raglen y cyfarfod fel y gallai'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ei ohirio neu beidio.

Esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y drefn o ymdrin â cheisiadau a ddeuai gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Bythefnos cyn y cyfarfod anfonwyd rhestr o'r ceisiadau oedd i'w cyflwyno er ystyriaeth at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Rhoes hynny ddigon o amser i gysylltu â phawb oedd wedi cyflwyno sylwadau i gadarnhau dyddiad y cyfarfod, fel y gallent ddod i annerch y Pwyllgor pe dymunent. Yr eithriad yn achos y cais y cyfeiriai'r Cynghorydd Peers ato oedd bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth o bwys yn hwyr, cyn cyhoeddi manylion y rhaglen ar wefan y Cyngor. Nid oedd y swyddogion o'r farn y byddai'n ddoeth cynnwys y cais ar y rhaglen heb gael cyfle i ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd, ac felly fe dynnwyd y cais o'r rhaglen cyn ei chyhoeddi.

**54. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

**55. MEMBERS OF THE PUBLIC AND PRESS IN ATTENDANCE**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd tri aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac un aelod o'r wasg.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.38 pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 6 CHWEFROR 2019**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058544 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais Llawn - Datblygiad preswyl ar gyfer 30 o fflatiau fforddiadwy ar gyfer pobl dros 55 oed gyda mynediad cysylltiedig, parcio a dymchwel hen Westy'r Albion yng Nghlwb Cymdeithasol yr Albion, Pen y Llan, Cei Connah. | Siaradodd Mrs. K. Evans yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr B. Thornley, yr asiant, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058957 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn – Dymchwel tŷ allan presennol, gosod tanciau tanwydd newydd 45,000 litr (petrol) a 30,000 litr (diesel), canopi newydd, ymestyn yr adeilad gwerthu presennol, llawr caled newydd, peiriant arian a lleoedd parcio cysylltiedig, lleoedd cadw beics a gwaith cysylltiedig arall yn Ffordd Caer, Oakenholt, Sir y Fflint. | Ni siaradodd neb. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059055 | Cyngor Tref y Fflint | Cais llawn – Cynnig i godi 78 o anheddau gan gynnwys priffyrdd, mannau agored cyhoeddus, tirlunio a phob gwaith cysylltiedig yn Ffordd Caer, Oakenholt. | Ni siaradodd neb. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| | | Materion Cyffredinol – Gwrthwynebiad i Orchymyn Diogelu Coed Rhif 320, tir ar Fferm Daisy Bank (Gogledd) Ffordd Caer, Penyffordd. | Ni siaradodd neb. | Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 320 (2018) ar dir Fferm Daisy Bank (Gogledd) Ffordd Caer, Penyffordd heb ddiwygiadau; a<br><br>Chadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 321 (2018) ar dir Fferm Daisy Bank (Gogledd) Ffordd Caer, Penyffordd heb ddiwygiadau. |
| **APÊL** | | | **NODWYD** | |
| 3202253 | | Apêl yn erbyn cyflwyno Rhybudd Gorfodi ar dir Erwau Cottage, Treuddyn ynglŷn ag adeiladu caban pren a'i ddefnyddio at ddibenion gwyliau. | Nodwyd. | Er gwybodaeth, cadarnhawyd y Rhybudd Gorfodi. |